

## ARNOLD (TEULU), Llanthony a Llanfihangel Crucorney, sir Fynwy

Sefydlwyd ffortiwn y teulu hwn, a oedd yn hen deulu yn sir Fynwy, yn disgyn o Gwilym ap Meurig ac wedi mabwysiadu'r cyfenw Arnold yn gynnar yn ei hanes, oedd Syr NICHOLAS ARNOLD (1507? - 1580), boneddwr a dderbynai bensiwn gan Harri VIII ac a gafodd abaty Llanthony pan oedd yn cynrychioli Thomas Cromwell yn yr ardal adeg Diddymiad y Mynachdai (a hefyd ystad yn sir Gaerloyw yr oedd yn trigo ynddi); daeth yn Brotestant pybyr a gwnaethpwyd ef yn brif ustus Iwerddon (1564). Ceir ei hanes ef yn *D.N.B. Supplement i*, 75.

### JOHN ARNOLD

Mab Syr Nicholas Arnold (gelwir ef yn Thomas ar gam yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1942, t. 21), a etifeddodd ystad Llanthony, ond aeth yr ystad yn sir Gaerloyw i blant priodas arall. Yn ddiweddarach prydlwyd Llanthony gan John Arnold i'r Hoptoniaid a phrynodd yntau faenor Llanfihangel Crucorney a byu yno. Bu'n ddiwyd yn Senedd 1597, gan gynrychioli sir Fynwy; yr oedd ganddo gyfran fechan ym mradwriaeth iarll Essex.

### NICHOLAS ARNOLD (bu farw 1665)

Mab hynaf John Arnold. Bu'n aelod dros y sir yn Senedd 1626 ac yn siryf yn 1633, ond yr oedd yn fwy o fagwr anifeiliaid nag o wleidyddwr, ac nid oes dystiolaeth o'r hyn a ddywedwyd yn ddiweddarach iddo ymladd o blaid Oliver Cromwell a chael ei wobrwyo â thiroedd. (Hist. MSS. Comm., *Dartmouth*, iii, 282).

### JOHN ARNOLD (ganwyd 1634), gwleidyddwr Whig

Mab hynaf Nicholas Arnold. Bu'n siryf sir Fynwy yn 1669. Efe a arweinai blaid y Whigiaid a'r gor-Brotestaniaid yn sir Fynwy yn erbyn Toriaeth a Phrotestaniaeth gymedrol yr **ardalydd Worcester (dug cyntaf Beaufort)** yn ddiweddarach; yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth Llys y Goror ('President of Wales') parodd yr ardalydd i Arnold golli ei swydd fel ynad heddwch yn gynnar yn 1678. Yn ddial am hyn gwrthwynebodd Arnold ymgais **Worcester** i gau i mewn fforest Wentwood; anfonodd at Lefarydd Tŷ'r Cyffredin lythyr yn lladd ar weithrediadau rhai pabyddion o'r cylch a gofynnwyd cwestiynau iddo ar hyn wrth far Tŷ'r Cyffredin a diolchwyd iddo (27 Mawrth 1678). Buwyd yn archwilio'r cyhuddiadau mewn pwyllgor yr oedd **Syr John Trevor** (1637 - 1717) yn gadeirydd iddo; gwnaeth y pwyllgor adroddiad llawn, a'r canlyniad fu chwalu cartref y Jesiwitiaid yn Cwm, Swydd Henffordd, a rhoi'r Brodyr **David Lewis**, **Philip Evans**, **John Lloyd**, ac eraill, i farwolaeth; cymerth Arnold ran amlwg yn y gweithrediadau hyn i gyd. Er ei fod yn Eglwyswr ac yn cydffurfio, bu'n gweithio gydag Anghydfurfwr o'r cylch megis **Samuel Jones**; dywedir iddo, yn ddiweddarach, fod yng nghyswllt â **Samuel Jones** mewn amcanion bradwriaethus.

Ym mis Medi 1679 ceisiodd, eithr yn ofer, ennill sedd yn y Senedd dros fwrdais Trefynwy yn erbyn aer**Worcester**; llwyddodd, fodd bynnag, 26 Tachwedd 1680, gyda'i betisiwn a geisai beri i'r aelod a ddewiswyd golli ei sedd; hawliai Arnold ddarfod dewis Worcester oherwydd i rai o'r tu allan i Drefynwy gael eu difreinio; pan aeth efe ei hunan i Westminster bu'n ymosod yn ddi-baid yn y Senedd ar yr aelod y cymerodd ef ei le, gan ei alw yn ormeswr lleol ac yn ŵr a oedd o blaid pabyddion. Yn y cyfamser, sef yn Ebrill 1680, bu i gynllwyn, honedig, gan babyddion i geisio ei ladd - credir erbyn hyn na fu'r fath gynllwyn o gwbl, serch i John Giles, Brynbuga, ddioddef o'i blegid - beri i Arnold ddyfod yn arwr poblogaidd ochr yn ochr â Shaftesbury, Oates, **Bedloe**, ac eraill o aelodau Plaid y Wlad, a daeth yn amlwg ymysg y rheini a oedd yn aelodau o barti'r 'exclusionists' yn ei ardal ei hun ac yn Westminster, ac fe'i hailddewiswyd yn aelod dros Drefynwy yn 1681. Pan oedd y Toriaid yn gryfion yn 1682 cyfrifid Arnold yn ddyd yn i'w wylled, ac ym mis Tachwedd 1683 llwyddodd **dug Beaufort** i gael dyfarniad yn ei erbyn yn Llys Mainc y Brenin oblegid 'scandalum magnatum'; ceisiodd yntau, ond yn ofer, ei achub ei hun rhag y dyfarniad trwy wneud achwyniadau eraill ar babyddion.

Am na thalodd £10,000 o iawn bu yng ngharchar am flynyddoedd lawer gan golli ei sedd fel ynad heddwch yn Westminster a Middlesex. Cafodd ei sedd yn ôl fel aelod seneddol Trefynwy yn Senedd y Confensiwn (Ionawr 1689), ond dewisodd gynrychioli Southwark pan etholwyd ef dros Southwark a Threfynwy y mis canlynol. Methodd â chael diddymu dyfarniad y llys yn ei erbyn; llwyddodd i gael ei ailosod ar y fainc yn Westminster a Middlesex (3 Ebrill 1690), a pharhaodd i fod mewn cyswllt ag Oates a syniadau gwleidyddol eithafol hwnnw. Er iddo gynrychioli Trefynwy unwaith yn rhagor - o 1695 hyd 1698 - ni fu o ddylanwad mwy. Ar ôl ei farw ef gwerthwyd Llanthony a Llanfihangel gan ei aer, NICHOLAS ARNOLD (1669-?), i Harleiaid Brampton Bryan yn 1727.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

## Ffynonellau

Bradney, *A History of Monmouthshire*, i, 215-20

D. Mathew, *The Celtic Peoples and Renaissance Europe. A study of the Celtic and Spanish influences on Elizabethan history* (1933), 249-52

*Calendar of the Committee for Compounding with Delinquents, etc.*, 1643â€"1660, iii, 2303

H. A. C. Sturgess, *Register of Admissions to the Honourable Society of the Middle Temple* (1949), i, 52

Ifan ab Owen Edwards, *A Catalogue of Star Chamber Proceedings Relating to Wales* (Cardiff 1929), 116

*Ottley deeds yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, 108

*Quaritch deeds yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, 322, 505

*Badminton manorial records yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, ii, 1802-4, 1806-7

*Llawysgrifau Llangibby Castle yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, C. 847, 850

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, 12th R., ap. ix, 68, 89, 101, 103, 106, 114-5; Cecil, xi, 123-7; Ormond, n.s., v, 306-7, 310, 561; Downshire, i, 611

*The Journals of the House of Commons*, ix, 463, 466-9

*Calendar of State Papers, Domestic Series*, 1678-1683, 1689-1690

Roxburghe Club, *Aylesbury Memoirs* (1890), 1890, i, 30-46

Narcissus Luttrell, *A brief historical relation of state affairs from September 1678 to April 1714* (1857), ii, 140, 190

*England's Second Warning-piece; or, Observations on the barbarous attempt to murder Justice Arnold April the 15th. 1680. Containing 1. A true relation of the matter of fact. 2. Some remarks on the circumstances. 3. A true copy of the pretended speech of Evans the Popish Priest, etc* (1680)

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1925-6, 97-9, 1942, 21

*St. Peter's Mag.*, Cardiff, 1923, 5-7, 1924, 41-7

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*(Brecknock 1895), 121-2, 136

J. Pollock, *The Popish Plot. A study in the history of the reign of Charles II*, arg. 1944, 273-4

J. Lane, *Titus Oates* (1949), 333-6

# Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732627](https://www.wikidata.org/wiki/Q20732627)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



## Arddull APA



Dodd, A. H., (1953). ARNOLD (TEULU), Llanthony a Llanfihangel Crucorney, sir Fynwy. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/-ARNO-LLA-1500>

[Cyfrannu](#)

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiogel gan  
Llywodraeth Cymru  
Secured by  
Welsh Government